newyddiondigidol

Newyddion gan **digitaluk** yng Nghymru

Chwefror 2008

CROESO

Croeso i'r ail rifyn o Newyddion Digidol, y diweddaraf ar y newid i ddigidol ar hyd a lled Cymru. Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys gwybodaeth am y sector dwristiaeth, tai, y sector wirfoddol a rhagor o wybodaeth ar ein gwaith yng Nghymru. Cofiwch gysylltu a ni os oes gennych chi unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r newid neu os hoffech wybod mwy am ein gwaith.

ELUSENNAU'N UNO I GEFNOGI'R NEWID I DDIGIDOL

Mae Digital UK wedi cyhoeddi manylion partneriaeth hollbwysig rhwng sefydliadau elusennol blaengar. Bydd y prosiect, sy'n cael ei ariannu gan Digital UK, yn creu corff di-elw newydd, Digital Outreach Ltd, a fydd yn cefnogi gwylwyr sydd angen cymorth pan fydd y signal deledu analog yn cael ei diffodd. Daw Digital Outreach Ltd ag Age Concern England, Help the Aged, Community Service Volunteers a Collective Enterprises Limited, cwmni sy'n arbenigo ar weithio gyda'r sector elusennol, at ei gilydd. Age Concern England yw'r Aelod ar lefel y DU ac mae'n cynrychioli Age Concern Cymru a'r Alban yng nghyd-destun y prosiect hwn. Bydd y corff yn comisiynu nifer o wasanaethau cefnogol gan sefydliadau gwirfoddol yn lleol a chenedlaethol, gan weithio yn y lle cyntaf yn y pedwar ardal cyntaf i newid, Border, De Orllewin Lloegr, Granada, a Chymru wrth gwrs. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Digital UK, neu anfonwch e-bost at wales@digitaluk.co.uk. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu cynnwys ym mhob rhifyn o Newyddion Digidol.

BBC YN CYHOEDDI MANYLION AM Y CYNLLUN CYMORTH

Mae'r BBC wedi cyhoeddi mai eaga plc sydd wedi'i ddewis fel y cyflenwr ar gyfer Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol. Meddai Peter White, Prif Weithredwr y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol, mewn datganiad gan y BBC, "Rydym yn falch iawn o gyhoeddi mai eaga yw'r cyflenwr ar gyfer y Cynllun Cymorth. Ein pwrpas yw sicrhau bod pawb sy'n gymwys a sydd angen cymorth i baratoi ar gyfer teledu digidol yn derbyn cefnogaeth gennym ni er mwyn iddyn nhw barhau i dderbyn signal deledu ar ôl y newid. Byddwn yn parhau i weithio er mwyn cyrraedd y rheini sydd angen ein cymorth

Bydd y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol a Digital Outreach Ltd yn cydweithio er mwyn sicrhau bod cwmpas eang o gymorth ar gael ym mhob ardal sy'n newid. Mae'r Cynllun Cymorth wedi'i greu er mwyn darparu offer a chymorth i'r rheini sydd dros 75 oed a'r rheini sy'n anabl. Bydd Digital Outreach Ltd yn gweithio gyda chyrff lleol i ddarparu cefnogaeth i'r rheini nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth, gan gynnwys gwylwyr hŷn dan 75 oed, y rheini gydag anableddau synhwyraidd a symud, y rheini gydag anawsterau dysgu a'r rheini sy'n ynysig ac unig o fewn ein cymdeithas.

Gyda'i gilydd, bydd gweithgareddau'r Cynllun Cymorth a Digital Outreach Ltd yn creu elfen hollbwysig o'r wybodaeth a chefnogaeth ehangach sydd ar gael gan Digital UK. Mae ein llinell wybodaeth - 08458 48 48 48 (ar gyfer ymholiadau Cymraeg eu hiaith) a 08456 50 50 50 ar gyfer ymholiadau eraill – a'n gwefan, www.digitaluk.co.uk, ar gael i bawb.

GRWP CEFNOGAETH LEOL GORLLEWIN CYMRU

Gorllewin Cymru yw'r ardal gyntaf yng Nghymru i newid i ddigidol rhwng Gorffennaf a Medi 2009. Felly, gyda llai na deunaw mis i fynd, rydym yn creu'r grŵp cefnogaeth cyntaf yn yr ardal. Bwriad y grŵp yw dod ag asiantaethau a sefydliadau sydd â diddordeb yn y pwnc neu sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yn y gorllewin at ei gilydd. Rydym yn gobeithio gallu lawnsio'r grŵp ym mis Ebrill, felly os ydych chi am chwarae rhan, gadewch i ni wybod. Bydd y grŵp yn cynnwys Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, rhannau o Nedd Port Talbot, Ceredigion a Phowys, felly os ydych chi'n weithgar ar lefel gymunedol neu ar lefel sirol yn un

o'r ardaloedd yma, ac eisiau gwybod mwy, cysylltwch â ni – wales@digitaluk.co.uk. Byddwn yn creu grwpiau mewn rhannau eraill o Gymru dros y misoedd nesaf.

newyddion ar y newid a digidol

CYNLLUN CANMOLIAETH I LANDLORDIAID

Mae Digital UK wedi lawnsio cynllun cyffrous ar gyfer y sector dai sy'n cydnabod cymdeithasau tai a darparwyr tai sy'n cymryd camau i ddarparu teledu digidol a gwybodaeth am y newid i ddigidol ar gyfer eu tenantiaid. Gall sefydliadau gyda Chynllun Gweithredu Newid i Ddigidol ddefnyddio ein marc cydnabyddedig i ddangos eu hymroddiad i ddarparu tai a gwasanaethau o safon. Yn ôl ymchwil a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU y llynedd, does gan tua 34% o ddarparwyr tai cyhoeddus yn y pedwar ardal cyntaf i newid ddim cynllun i sicrhau y bydd y gwaith wedi'i gwblhau mewn pryd. Mae Digital UK yn poeni bod llai byth o landlordiaid preifat yn paratoi ar gyfer y newid. Mwy gan Digital UK. Os ydych chi am fod yn rhan o'r cynllun yng Nghymru, anfonwch e-bost at wales@digitaluk.co.uk. Rydym yn gobeithio lawnsio'r cynllun yma yn ystod y gwanwyn, felly os ydych chi wrthi'n sicrhau bod eich tai a'ch eiddo'n barod ar gyfer y newid, gadewch i ni wybod.

RHAID I'R SECTOR YMWELWYR BARATOI AM Y NEWID

Dywed tri chwarter o reolwyr gwestai a llefydd gwely a brecwast bod sicrhau bod teledu ar gael yn rhan bwysig o annog ymwelwyr i aros, ond eto, dyw'r mwyafrif ohonynt ddim yn barod ar gyfer y newid i deledu digidol. Gallai hyn achosi i ymwelwyr fod yn edrych ar sgrin wag ar ôl y newid, meddai ymchwil gan Digital UK.

Yng Nghymru, dywedodd bron i 50% o'r rheini a holwyd nad oeddynt wedi newid i ddigidol eto. Dywedodd 54% o'r rheini sydd heb gwblhau'u paratoadau ar gyfer digidol nad oes ganddyn nhw unrhyw gynlluniau i wneud. Mwy gan Digital UK Rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a byddwn yn cymryd rhan yn eu harddangosfeydd twristiaeth yn ystod y gwanwyn. Felly os oes gennych unrhyw gwestiynau, dewch i'n gweld yng Nghaernarfon neu Abertawe, neu anfonwch e-bost at wales@digitaluk.co.uk.

AR Y BYSUS

Rydym ni wedi bod yn teithio o gwmpas Cymru dros yr wythnosau diwethaf fel rhan o daith ddigidol Bws BBC Cymru. Roedd y daith, a fu mewn nifer o drefi ar hyd a lled Cymru, yn gyfle i'r cyhoedd bicio i mewn i gael gwybod mwy am y newid i ddigidol yn yr ardal ac i gael ateb i unrhyw gwestiynau oedd ganddynt. Bu Digital UK yn rhan o'r daith yng Nghaerfyrddin, Caerffili, Penybont, Bangor a Chaergybi, cyn i ni fentro ar ein pen ein hunain draw i'r Wyddgrug a Wrecsam er mwyn cwblhau'r daith. Diolch yn fawr i dimau bws y BBC am eu croeso ac am gefnogi ein gwaith yn lleol.

CHWILIO AM SIARADWR?

Os ydych chi'n aelod o grŵp neu sefydliad fyddai'n hoffi cael clywed mwy am y newid i ddigidol yng Nghymru, cysylltwch â ni er mwyn trefnu siaradwr ar gyfer un o'ch cyfarfodydd. Rydym yn hapus i fynychu cyfarfod ym mhob rhan o Gymru a byddwn yn darparu gwybodaeth leol ar y newid i ddigidol yn eich ardal chi a sut y gallwch chi baratoi ar ei gyfer. Ebostiwch ni am ragor o wybodaeth neu i drefnu siaradwr - wales@digitaluk.co.uk.

mwy am y newid i ddigidol

digitaluk

Digital UK yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am arwain y newid i deledu digidol yn y DU. Ewch i'r wefan – www.digitaluk.co.uk am ragor o wybodaeth am y newid yng Nghymru yn 2009-10.